# Crynodeb o Adroddiad Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2014-2015




www.conwy.gov.uk

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Cynnwys**


| | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Beth mae'r Awdurdod yn ei wneud? | 4 |
| 3 | Yr hyn y mae'r gymuned yn ei feddwl o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 6 |
| 4 | Crynodeb o Gynnydd y Cynllun Corfforaethol | 8 |
| 5 | Pa mor dda ydyn ni’n cymharu? | 16 |
| 6 | Crynodeb Ariannol | 19 |
| 7 | Dweud eich dweud | 21 |
| 8 | Ymhle y gallwch chi gael rhagor o wybodaeth am eich Cyngor? | 22 |


Rydym yn fwy na pharod i ddarparu'r ddogfen hon mewn fformat neu mewn iaith arall

A

Cysylltwch â: Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol

E-bost: :cidt@conwy.gov.uk

Ffôn: ☎ 01492 574000


## 1 Cyflwyniad

Croeso i Grynodeb o Adroddiad Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am berfformiad y Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 1 Ebrill 2014 hyd 31 Mawrth 2015. Mae’r adroddiad yn amlinellu sut mae’r Cyngor wedi perfformio. Mae manylion pellach wedi’i gyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol 2014 – 2015. Gellir cael copi o’r Adroddiad Llawn a’r holl fesuryddion perfformiad ar ein gwefan **www.conwy.gov.uk/accountability.**

Bob blwyddyn bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn adolygu'r blaenoriaethau yr ydym yn canolbwyntio arnynt er mwyn darparu gwasanaethau da ac effeithlon i ddinasyddion Conwy. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r cyhoedd ac yn cael eu hadolygu i asesu effaith ar gydraddoldeb. Mae'n bwysig edrych yn ôl ar berfformiad y Cyngor a sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn gwneud gwahaniaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y nod heriol o filiynau o bunnoedd o arbedion sydd i'w cyflawni o flwyddyn i flwyddyn. Gobeithiwn y byddwch o’r farn bod yr adroddiad cryno hwn yn un llawn gwybodaeth ac yn drosolwg cytbwys o’n perfformiad.

## 2 Yr hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud - ciplun mewn niferoedd

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus sydd yn cefnogi bywydau beunyddiol trigolion y Fwrdeistref Sirol a'r rhai sy'n ymweld â hi. Dyma gyflwyno darlun sydyn o'r gwasanaethau amrywiol hyn ac o lefel gyfartalog y galw y mae'n rhaid i ni ei fodloni:



## Mewn blwyddyn

**16,400**

o lampau stryd yn derbyn gwaith cynnal a chadw

**300,000**

o ymwelwyr yn cael eu denu gan gynadleddau a digwyddiadau yn Venue Cymru

**34,800**

o unigolion yn dod i weld perfformiadau byw a ffilmiau sinema yn Theatr Colwyn

**300**

o berfformiadau yn cael eu llwyfannu yn Venue Cymru

£18.2 miliwn o fuddion economaidd yn cael eu cynhyrchu

**482,000**

o daliadau Treth y Cyngor yn cael eu casglu

67,800 o ymwelwyr dros nos mewn gwestai a llety gwely a brecwast trwy ddigwyddiadau yn Venue Cymru

**18,800**

o daliadau trethi annomestig yn cael eu casglu

**29,000**

tunnell o ddeunydd o gasgliadau ymyl palmant, canolfannau a safleoedd ailgylchu, yn cael eu hailgylchu neu eu compostio

**2,000**

o strydoedd yn cael eu glanhau

**670,000**

o ymwelwyr unigryw yn defnyddio ein gwefan

**250**

o blant yn derbyn gofal trwy ein hadran Gwasanaethau Cymdeithasol

Rydym yn falch ein bod hyd yma wedi cyflawni arbedion drwy gyfrwng newidiadau effeithlonrwydd mewnol yn hytrach na thorri gwasanaethau rheng flaen ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn Arolwg Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru 2015 lle dywedodd 65% o drigolion Conwy eu bod yn fodlon â'r gwasanaethau o ansawdd uchel a ddarperir – dyna'r sgôr uchaf yng Nghymru.

Yn yr un modd cafwyd y sgôr uchaf yng Nghymru gan drigolion Conwy'r am safon addysg

## Yr ardal a gynhelir gennym

**876**

hectar o barciau, coetir a mannau agored yn cael eu rheoli gan CBSC

**75 Km**

o arfordir o fewn ffiniau'r sir



837 km o ffyrdd di-ddosbarth

716 km o ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd

124 km o gefnffyrdd

119 km o briffyrdd

## 3 Yr hyn y mae'r gymuned yn ei feddwl o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Bob blwyddyn, bydd sampl gynrychioliadol o 14,000 o bobl ledled Cymru yn cymryd rhan yn **Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru**. Astudiaeth yw hon o oedolion o bob rhan o Gymru. Mae'r arolwg yn ymdrin ag ystod o bynciau gan ganolbwyntio ar les ac ar farn pobl o wasanaethau cyhoeddus. Gallwch weld yr adroddiadau ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar wefan Llywodraeth Cymru:

**http://wales.gov.uk/statistics-and-research/nationals-survey/?lang=en**


Mae rhai o'r cwestiynau allweddol sy'n cael eu gofyn i bobl yn ymwneud â pha mor fodlon ydynt â'u hardaloedd lleol a gwasanaethau eu hawdurdodau lleol. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn helpu awdurdodau lleol i asesu eu perfformiad ac i nodi meysydd i'w gwella yn y dyfodol. Mae'r cwestiynau yn canolbwyntio ar foddhad, ar gynnal a chadw'r ardal, ar gyfathrebu ac ar allu pobl i ddylanwadu ar benderfyniadau.

Mae'r canlyniadau ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2014/2015 wedi'u hamlinellu isod.

### 3.1 Mae fy nghyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel

Gofynnwyd i bobl ar draws Cymru a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad 'mae fy nghyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel'. Yn gyffredinol, roedd 53% yn cytuno â'r datganiad, roedd hyn yn is nag yn 2012-13 a 2013-14 pan yn y ddwy flynedd flaenorol, roedd 57% yn cytuno â'r datganiad. Roedd pobl yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig[4] ychydig yn fwy tebygol (58%) o gytuno â'r datganiad hwn na'r rhai a oedd yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (50%). Mae hyn yn amrywio yn ôl awdurdod lleol o 42% ym Mlaenau Gwent i 65% yng Nghonwy. Dangosir y canlyniadau ar gyfer pob awdurdod lleol yn y Siart isod.


**Cyfran y bobl sy'n cytuno neu'n anghytuno bod eu cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, yn ôl awdurdod lleol**



### 3.2 Sgôr gyfartalog a roddir ar gyfer cyflwr addysg yng Nghymru

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn gyfrifol am eu cyllideb addysg eu hunain. Mae ganddynt gwmpas sylweddol i benderfynu sut y gellir defnyddio’r arian i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau lleol. Dangosir boddhad cyffredinol gydag addysg yn ôl ardal awdurdod lleol yn y siart isod.

**Sgôr gyfartalog a roddir ar gyfer cyflwr addysg yng Nghymru, yn ôl awdurdod lleol**




Rhoddwyd atebion ar raddfa o 0 (drwg ofnadwy) i 10 (da iawn).

Pobl yng Nghonwy roddodd y graddau cyfartalog uchaf ar gyfer gyflwr addysg (7.2), tra rhoddodd pobl ym Mhowys y graddau cyfartalog isaf (6.1). Ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf bu gwahaniaeth sylweddol rhwng yr awdurdod lleol â'r sgôr cyfartalog isaf a'r un gyda'r uchaf. Fodd bynnag, mae trefn awdurdodau lleol, yn ôl graddau, wedi amrywio dros y tair blynedd.

## 4 Crynodeb o Gynnydd y Cynllun Corfforaethol

Mae’r wybodaeth yn y tabl ar y dudalen nesaf yn crynhoi statws ‘COG’ (Coch/ Oren/ Gwyrdd) o'r cynnydd a wnaed i gyflawni Amcanion y Cynllun Corfforaethol yn ystod blwyddyn ariannol 2014/2015. Mae'r cyfeiriadau sy’n dechrau gyda 'A' yn cyfeirio at gamau gweithredu a'r cyfeiriadau sy’n dechrau gyda 'M' yn cyfeirio at y mesurau.  Mae'r cynnydd wedi cael ei grwpio gan y Canlyniadau i'r Dinesydd y mae'r amcanion gwella'n eu cefnogi, fel y'u nodir yn y Cynllun Cymunedol Integredig, **Un Conwy 2012 - 2025.**

**Allwedd COG y Camau Gweithredu (A):**

| | |
|---|---|
| Cam gweithredu ddim yn symud ymlaen / meysydd pryder wedi’u codi | Coch |
| Cam gweithredu yn symud ymlaen a dim pryderon wedi’u codi | Oren |
| Cam gweithredu wedi’i gyflawni | Gwyrdd |

**Allwedd COG y Mesuryddion Perfformiad: (M)**

| ***O’i gymharu â’r targed a osodwyd:*** | |
|---|---|
| Heb gyflawni’r targed ac yn is na’r lefel sy’n cael ei goddef | Coch |
| Oddi mewn i’r goddefiant er mwyn gweithio tuag at gyflawni’r targed | Oren |
| Targed wedi'i gyrraedd ar gyfer y mesur | Gwyrdd |
| Dim targed i’r mesur, ond bu cynnydd mewn perfformiad | ⇧ |
| Dim targed i’r mesur, mae perfformiad yr un fath | ⇔ |
| Dim targed i’r mesur, gostyngiad mewn perfformiad | ⇩ |

## 4.1 Trosolwg o Berfformiad Cyflawni Camau Gweithredu a Mesurau Perfformiad y Cynllun Corfforaethol

| Canlyniad 1 - Mae Pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus | | | | Canlyniad 2 – Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **A1.1** | Gwyrdd | **M1.1** | Gwyrdd | **A2.1** | Gwyrdd | **M2.1** | Gwyrdd |
| **A1.2** | Gwyrdd | **M1.2a** | Gwyrdd | **A2.2** | Gwyrdd | **M2.2** | Gwyrdd |
| **A1.3** | Gwyrdd | **M1.2b** | Gwyrdd | **A2.3** | Gwyrdd | **M2.3** | Gwyrdd |
| **A1.4** | Gwyrdd | **M1.3** | Gwyrdd | **A2.4** | Gwyrdd | **M2.4** | Gwyrdd |
| **A1.5** | Oren | **M1.4** | Gwyrdd | | | **M2.5** | Gwyrdd |
| **A1.6** | Gwyrdd | **M1.5** | Coch | | | | |
| **A1.7** | Gwyrdd | **M1.6a** | Oren | | | | |
| **A1.8** | Gwyrdd | **M1.6b** | Gwyrdd | | | | |
| | | **M1.7** | Gwyrdd | | | | |
| | | **M1.8a** | Gwyrdd | | | | |
| | | **M1.8b** | Oren | | | | |
| | | **M1.9** | Gwyrdd | | | | |
| | | **M1.9b** | Oren | | | | |
| **Canlyniad 3 – Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas** | | | | **Canlyniad 4 - Mae Pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol** | | | |
| **A3.1** | Gwyrdd | **M3.1** | Gwyrdd | **A4.1** | Gwyrdd | **M4.1** | Gwyrdd |
| **A3.2** | Oren | **M3.2** | Oren | **A4.2** | Oren | **M4.2a** | Gwyrdd |
| **A3.4** | Gwyrdd | **M3.3** | Oren | **A4.3** | Gwyrdd | **M4.2b** | ↑ |
| **A3.5** | Oren | **M3.5** | Gwyrdd | **A4.4** | Oren | **M4.3** | Gwyrdd |
| **A3.6** | Gwyrdd | **M3.6** | Coch | | | **M4.4** | Gwyrdd |
| **A3.7** | Gwyrdd | **M3.7** | Gwyrdd | | | **M4.5** | Oren |
| | | **M3.8** | Gwyrdd | | | | |
| **Canlyniad 5 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus** | | | | **Canlyniad 6 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy** | | | |
| **A5.1** | Gwyrdd | **M5.1a** | Gwyrdd | **A6.1** | Gwyrdd | **M6.1** | Oren |
| **A5.2** | Gwyrdd | **M1.5b** | Gwyrdd | **A6.2** | Gwyrdd | **M6.2** | Gwyrdd |
| **A5.3** | Gwyrdd | **M5.2** | ↑ | **A6.3** | Oren | **M6.3** | Gwyrdd |
| **A5.4** | Gwyrdd | **M5.3** | ↑ | **A6.4** | Gwyrdd | **M6.4a** | ↓ |
| **A5.5** | Oren | **M5.4** | ↑ | **A6.5** | Gwyrdd | **M6.4b** | ↑ |
| **A5.6** | Oren | **M5.5** | ↓ | **A6.6** | Gwyrdd | **M6.5** | xxxx |
| | | **M5.6** | ⟺ | | | **M6.6** | Oren |
| | | **M5.7** | ↓ | | | **M6.7** | Gwyrdd |
| | | | | | | **M6.8** | Gwyrdd |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad 7 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r Gymraeg yn ffynnu** | | | | **Canlyniad 8 - Mae pobl yng Nghonwy'n cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais** | | | |
| **A7.1** | Gwyrdd | **M7.1a** | Oren | **A8.1** | Gwyrdd | **M8.1** | ⇔ |
| **A7.2** | Gwyrdd | **M7.1b** | Gwyrdd | **A8.2** | Gwyrdd | **M8.2** | ⇩ |
| **A7.3** | Gwyrdd | **M7.2** | Gwyrdd | **A8.3** | Oren | **M8.3a** | Oren |
| | | **M7.3** | Gwyrdd | **A8.4** | Oren | **M8.3b** | ⇩ |
| | | **M7.4** | Gwyrdd | **A8.5** | Oren | **M8.3c** | ⇩ |
| | | **M7.5** | | | | **M8.4** | Gwyrdd |
| | | | | | | **M8.5** | Coch |
| | | | | | | **M8.6** | ⇩ |
| | | | | | | **M8.7** | |
| **Blaenoriaethau Cyffredinol** | | | | | | | |
| **GA1** | Gwyrdd | **GM 1** | Oren | | | | |
| **GA2** | Gwyrdd | | | | | | |
| **GA3** | Gwyrdd | | | | | | |
| **GA4** | Oren | | | | | | |

## 4.2 Crynodeb o gyflawniadau allweddol y Cynllun Corfforaethol

### *1) Mae Pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac mae ganddynt sgiliau. Rydym wedi:*

1) cefnogi 137 o Fentrau Cymdeithasol - cynnydd mawr ar y blynyddoedd blaenorol.
2) parhau i gefnogi pobl ddiamddiffyn i symud yn nes i'r gwaith, er gwaethaf newidiadau cyllid.
3) darparu 417 o leoliadau profiad gwaith a 42 o brentisiaethau.
4) gweld cynnydd sylweddol mewn mynediad i ddyfeisiau llaw mewn ysgolion ac mae mwy o ysgolion yn defnyddio'r adnodd addysgol ar-lein 'Hwb' er mwyn cael gafael ar adnoddau dysgu ar gyfer gwersi.
5) cyhoeddi canlyniadau arholiadau ar gyfer (haf 2014) ble dyfarnwyd Cyfnod Allweddol 3 yn dda, a boddhaol ar gyfer Cyfnodau Allweddol 4 a 5. Fodd bynnag mae angen gwaith pellach ar gyfer cyfnod allweddol 2 a oedd yn anfoddhaol.
6) cyhoeddi'r proffiliau ar gyfer pob ysgol yng Nghonwy. Y bandiau proffil y seiliodd yr ysgol ar ddata perfformiad ac arweinyddiaeth ysgol. Gallwch gael mynediad i'r canlyniadau yn www.mylocalschool.gov.uk
7) symud ymlaen gyda moderneiddio ysgolion cynradd.
8) cynnig 14 pwnc Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) ar gyfer addysg ôl-16.

### *2) Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel Rydym wedi:*



1) cyflawni ein targedau ar gyfer glanhau tipio anghyfreithlon a graffiti.
2) cynnal 12 diwrnod glanhau'r gymuned
3) parhau i daclo sbwriel a baw cŵn drwy roi tocynnau cosb a thrwy addysgu trigolion a phobl ifanc drwy'r ymgyrch 'Cadwch yn lân - dim llanast'.
4) parhau i ymweld ag ysgolion i addysgu pobl ifanc am bwysigrwydd ailgylchu.
5) mynychu digwyddiadau cymunedol drwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, i godi ymwybyddiaeth am atal troseddau.
6) sefydlu byrddau diogelu rhanbarthol ar gyfer diogelu plant ac oedolion diamddiffyn.
7) sefydlu gwasanaeth Unigolion Diamddiffyn sy'n gweithio i wella prosesau, adolygu contractau a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella er mwyn darparu gwasanaeth mwy penodol a chydlynol ar gyfer pobl ddiamddiffyn.
8) gweithio mewn partneriaeth i ganolbwyntio sylw ac adnoddau ar asesu gwelliannau o fewn y Timau Iechyd Meddwl Cymunedol.
9) 336 o barthau galw di-wahoddiad newydd - gan ddod â'r cyfanswm i 1178, sy'n dawelwch meddwl mawr i drigolion, yn enwedig o gofio ein poblogaeth hŷn fawr.



### *3) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas. Rydym wedi:*

1) lansio Gwasanaeth Datrysiadau Tai Conwy sydd yn siop un stop amlasiantaeth ar gyfer yr holl opsiynau tai.
2) lansio SARTH - 'Llwybr Mynediad Sengl i Dai' sy'n cyflwyno system frysbennu gyffredinol a ddefnyddir gan bob asiantaeth i ddarparu cyngor tai.
3) parhau i gyflwyno trwyddedu Tai Amlbreswyliaeth (HMO) ym Mhensarn, Bae Colwyn a Llandudno.
4) dychwelyd 51 o gartrefi gwag i'w defnyddio fel mannau preswylio.



5) cynnal 8 o ddigwyddiadau ymwybyddiaeth llifogydd.
6) cwblhau gwaith ar amddiffynfeydd llifogydd, trwsio difrod storm a chynlluniau lliniaru llifogydd.
7) gweithio gyda phartneriaid i geisio cyllid i wella effeithlonrwydd ynni mewn 502 o eiddo.

## *4) Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol. Rydym wedi:*

1) cyflwyno Tîm Pwynt Mynediad Sengl mewn partneriaeth â'r Sector Iechyd a'r Trydydd Sector. Mae'r tîm yn darparu pwynt mynediad sengl ar gyfer gwybodaeth, cyngor ac atgyfeirio mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghonwy drwy rif ffôn rhadffôn: 0300 456 1111. (Nid yw'r tîm yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Plant na'r Tîm Cyffuriau ac Alcohol).
2) cynyddu proffil a gwybodaeth am y Tîm Gofalwyr a pha gymorth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl.
3) cynyddu % y plant sy'n gallu nofio ar ddiwedd yr ysgol gynradd gan 8%.
4) newid ffocws chwaraeon ysgol i blant ysgol gynradd i sicrhau eu bod yn llythrennog yn gorfforol.
5) cwblhau asesiad anghenion cludiant gwledig. Sefydlu cynllun peilot yn Uwchaled i ddarparu gwasanaeth cludiant cymunedol newydd yn cysylltu i mewn i'r rhwydwaith bysiau craidd a chynnig mynediad lleol i ofal iechyd a gwasanaethau eraill fel siopa.
6) sefydlu Prosiect Cludiant Corfforaethol i fynd i'r afael â darpariaeth cludiant ac â materion ar draws pob maes perthnasol o fewn yr awdurdod, a chysylltu hefyd gydag agendâu cludiant rhanbarthol a chenedlaethol.



## *5) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir gydag economi ffyniannus. Rydym wedi:*

1) lansio'r strategaeth ddigwyddiadau.
2) cynnal 26 o ddigwyddiadau cymunedol a 7 prif ddigwyddiad sydd wedi cefnogi'r economi leol:
    a. Rali Cymru Prydain Fawr,
    b. Cyngerdd Elton John,
    c. Gŵyl Griced Gogledd Cymru,
    d. Prom a Mwy,
    e. Access All Eirias,
    f. Taith Prydain,
    g. Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru.
3) sefydlu fforwm busnes ac wedi nodi mwy o gyfleoedd prentisiaeth.
4) cynorthwyo busnesau yn y sir i wneud cais am Ostyngiadau Trethi Annomestig Cenedlaethol sydd ar gael iddynt.
5) sefydlu cronfa ddata ymholiadau eiddo busnes gyda phob un o'r 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru.
6) hyrwyddo buddsoddiad o'r tu allan i'r ardal drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
7) gweld cynnydd yn nifer y twristiaid sy'n ymweld â Chonwy am y dydd ac arosiadau dros nos.
8) gweld cynnydd yn nifer y contractau cyngor a roddir i fusnesau yn y Gogledd.
9) drwy'r Bwrdd Creu Cymunedau Cryf a Threchu Tlodi, gallu dangos dull mwy cydlynol o gefnogi pobl sy'n wynebu tlodi yn y sir.

## *6) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy. Rydym wedi:*

1) cael 9 baner werdd ar gyfer ein parciau a gwarchodfeydd natur.
2) cyflawni Gwobrau Cymru yn ei Blodau ar gyfer Llandudno a Bae Colwyn a'r Wobr Prydain yn ei Blodau ar gyfer Bae Colwyn.
3) ennill gwobr APSE ar gyfer y perfformiwr Gorau ar gyfer Parciau.
4) cael gwobrau arfordir ar gyfer 7 o draethau yng Nghonwy, cafodd 3 o'r traethau hyn 2 wobr gan wneud cyfanswm nifer y gwobrau a dderbyniwyd yn 10.
5) tynnu 24 o safleoedd 'dolur i'r llygaid' oddi ar y gofrestr.
6) uwchraddio goleuadau a gwblhawyd mewn 82 o adeiladau'r cyngor.
7) wedi dechrau cam 1 o uwchraddio i lampau LED ar gyfer goleuadau stryd ac mae 500 o lampau wedi cael eu huwchraddio hyd yn hyn.
8) cadw statws Lefel 5 y Ddraig Werdd ar gyfer yr Awdurdod.
9) cyflwyno Wi-Fi i holl safleoedd allweddol y cyngor ac mae hyn bellach ar gael i'r cyhoedd.
10) drafftio Achos Busnes ar gyfer Hyblygrwydd wrth Weithio sy'n dangos yr arbedion cost sy'n gysylltiedig â'r technolegau newydd.
11) treialu defnyddio Skype i Fusnes, trefniadau gweithio ystwyth a system cofnodi amser newydd. Bydd hyn yn caniatáu mwy o gydweithredu a chyfathrebu rhwng timau sydd wedi eu gwasgaru'n ddaearyddol.



## *7) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu. Rydym wedi:*

1) cyhoeddi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2014-2017.
2) gweld gwelliant yn y canlyniadau ar gyfer Cymraeg fel ail iaith.
3) diweddaru a hyrwyddo Cymraeg yn y Gweithle ar gyfer staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
4) cyrraedd y targed o 15 o ysgolion cynradd yn addysgu 25% o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg.
5) sefydlu cynllun gweithredu Cymraeg 'Mwy na Geiriau' ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol.
6) gwella sut y cofnodir gallu Cymraeg aelodau staff a'i gwneud yn gliriach pwy sy'n gallu siarad Cymraeg.
7) cwblhau Prosiect Twristiaeth Treftadaeth Tywysogion Gwynedd. Creodd y prosiect werth gros blynyddol amcangyfrifedig ychwanegol o £4,767,600 a chefnogodd 187.7 o swyddi yn yr Economi Leol.
8) cynhyrchu Cynllun Cyrchfan Conwy 2015 – 2018.

WALES CYMRU



## *8) Mae pobl yng Nghonwy'n cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais. Rydym wedi:*

1) parhau i we-ddarlledu cyfarfodydd allweddol y cyngor
2) sefydlu nifer o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol i roi gwybodaeth i drigolion am ddatblygiadau yng ngwasanaeth y cyngor ac i glywed barn preswylwyr.
3) parhau i gyhoeddi Bwletin i bob cartref ddwywaith y flwyddyn ac i ddefnyddio hyn fel mecanwaith i wahodd preswylwyr i rannu eu barn.
4) adolygu'r weithdrefn gwyno a gwella prosesau mewnol i sicrhau ein bod yn gwerthuso cwynion a dysgu o'r adborth a gawsom gan drigolion.
5) cyhoeddi 25 o adroddiadau blynyddol Aelodau Etholedig
6) bod yn adolygu'r prosesau gwasanaeth cwsmeriaid rheng flaen er mwyn gwella profiad y cwsmer ac i greu effeithlonrwydd

7) adolygu’r 5 cynllun lleol i greu 1 cynllun. Rydym yn gweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned i flaenoriaethu’r '10 uchaf' ar gyfer pob ward.
8) dechrau adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac ysgrifennu'r adroddiad blynyddol ar gynnydd a gyflawnwyd hyd yma.



***Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy’n Effeithlon ac wedi’i reoli’n dda. Rydym wedi:***

1) cyflawni’r targed arbedion o £8.453 miliwn.
2) ennill £10,121,077 mewn arian cyfatebol.
3) parhau i adolygu a moderneiddio gwasanaethau rheng flaen yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Rheoleiddio a’r Gwasanaethau Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau.
4) adolygu’r ddarpariaeth llyfrgell ac agor y llyfrgell gymunedol gyntaf ym Mhenmaenawr.
5) adolygu’r prosesau busnes mewnol i leihau'r papur a ddefnyddiwn ac er mwyn lleihau'r angen i deithio o safle i safle.
6) cyflwyno mwy o wasanaethau y gellir gwneud cais amdanynt ar-lein, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, e.e. ceisiadau cynllunio ac archebion gwasanaethau hamdden.
7) datblygu cytundebau lefel gwasanaeth i gynhyrchu incwm drwy wneud gwaith ar ran awdurdodau eraill.
8) symud ymlaen â'r prosiect swyddfeydd at y pwynt o wneud penderfyniad ar ddyfarnu contract.
9) adolygu a symleiddio ein partneriaethau strategol a dechrau partneriaethau tai newydd i helpu i atal digartrefedd.

### 4.3 Beth sydd angen i ni ei wella / ei ddatblygu?

Rydym yn falch iawn o'r llwyddiannau hyn, ond mae hunanwerthuso hefyd yn golygu ystyried a ydym yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i’r gymuned gan ystyried, nid yn unig y pethau sydd wedi mynd yn dda, ond yr agweddau hynny y mae angen i ni eu gwella neu barhau i’w datblygu.

O’r herwydd, byddwn hefyd yn anelu i ddatblygu gwaith yn y meysydd canlynol:

a) Parhau i adolygu ein cyllid a sicrhau effeithlonrwydd i gwrdd â gostyngiad yn y gyllideb.
b) Gwella perfformiad/ ceisio adnoddau i helpu i wella rhai mesurau e.e.
   I. Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi bod mewn tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn, ac amseriad y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol
   II. Canran y ffyrdd dosbarthedig (C) sydd mewn cyflwr gwael cyffredinol.
   III. Canran y busnesau newydd a oedd yn destun ymweliad asesu risg neu wedi dychwelyd holiadur hunanasesu yn ystod y flwyddyn ar gyfer hylendid bwyd.
   IV. Canran ceisiadau cynllun llawn rheoli adeiladu wedi eu gwirio cyn pen 15 diwrnod gwaith
   V. Canran y disgyblion sy'n gadael yr ysgol gynradd ac sy'n gallu nofio i safon ddigonol.

c) Parhau i weithio gyda GwE i adolygu cyrhaeddiad addysgol, yn enwedig Cyfnod Allweddol 2, TGAU a mynediad Athrawon at y cymhwyster CPCP sy'n ofynnol ar gyfer rolau penaethiaid.
d) Monitro effaith yr Asesiadau Amddifadu o Ryddid.
e) Gweithio gyda chydweithwyr Iechyd i adolygu memorandwm o Ddealltwriaeth a pholisïau gweithredol ar gyfer iechyd meddwl.
f) Gweithredu'r Cynllun Tai Fforddiadwy ac i adolygu'r Strategaeth Cartrefi Gwag.


g) Adolygu ffocws ar ffyrdd o fyw iach a gweithgar er mwyn adlewyrchu'r flaenoriaeth llythrennedd corfforol Llywodraeth Cymru, a pharhau i ganolbwyntio ar safonau nofio.
h) Parhau i ganolbwyntio ar gefnogaeth i ofalwyr di-dâl.
i) Cwblhau a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer y Strategaeth Gaffael Gorfforaethol.
j) Pan y cânt eu cyhoeddi, gweithredu safonau iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.
k) Parhau i ddatblygu ymagwedd gorfforaethol at gludiant.
l) Lansio system rheoli cynnwys newydd ar gyfer y wefan a gweithio i gynyddu lefel y bodlonrwydd â'n gwefan.
m) Cwblhau'r adolygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Chynlluniau Ardal.

## 5 Pa mor dda ydym yn cymharu?

Mae angen i'r Cyngor, yn unol â chanllawiau Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, Llywodraeth Cymru 'ganfod angen' a 'gwella gwasanaethau'n barhaus'. Er mwyn asesu pa mor dda y gwnawn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod nifer o fesuryddion perfformiad statudol sy'n ymwneud â meysydd polisi allweddol e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a'r Amgylchedd. Yna caiff lefel y perfformiad ei gymharu â thargedau a osodwyd gan y Cyngor.

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'n perfformiad mewn cymhariaeth a'r mesuryddion cenedlaethol pan ellir gwneud cymariaethau, o sut yr ydym yn perfformio o gymharu â'r targedau a osodwyd yn y Cynllun Corfforaethol, a hefyd ceir crynodeb o berfformiad mesuryddion cenedlaethol a mesuryddion y cynllun corfforaethol fesul canlyniad y dinesydd. Mae manylion pellach i'w gweld yn yr Adroddiad Blynyddol.


### 5.1 Cyflawni ein Targedau Cenedlaethol




Mae'r siart cylch (chwith) yn dangos perfformiad diwedd blwyddyn 2014/2015 am y mesuryddion perfformiad statudol o gymharu â'r targedau y mae'r Cyngor wedi eu gosod iddo ei hun ar ddechrau'r flwyddyn.

Mae 43 o'r 44 Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a'r Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus wedi cael eu cymharu ledled Cymru.

### 5.2 Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru?





Mae llawer iawn o'n mesuryddion statudol yn gosod ein perfformiad yn chwarter uchaf neu yn chwarter canol perfformiad awdurdodau lleol Cymru. Mae'r canlyniadau yn welliant ar ganlyniadau'r llynedd. Mae perfformiad chwarter uchaf wedi gostwng o 15 lawr i 12, Cyfartaledd lawr o 24 lawr i 22, a'r chwartel isaf wedi cynyddu o 4 i 8. Rydym yn gweithio i wella'r dangosyddion ym mherfformiad chwarter isaf ar gyfer Cymru ac mae cynlluniau gweithredu wedi eu rhoi ar waith.


### 5.3 Cyflawni targedau ein Canlyniadau

Mae'r siartiau isod yn dangos sut yr ydym wedi perfformio yn erbyn y canlyniadau i’r dinesydd yn y Cynllun Corfforaethol, gan edrych ar fesuryddion y Cynllun Corfforaethol, ond hefyd ar Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, sy’n ymwneud â'r canlyniadau i’r dinesydd. Mae pob siart yn dangos perfformiad yn ôl nifer y mesuryddion a chanran y mesuryddion sydd naill ai ddim yn cwrdd â’r targed, sy’n symud ymlaen o fewn y goddefiant tuag at gwrdd â'r targed neu sydd wedi cwrdd â’r targed.


**Canlyniad 1: Wedi'u haddysgu ac yn fedrus**





**Canlyniad 2: Diogel a theimlo'n ddiogel**





**Canlyniad 3: Tai diogel ac addas**





**Canlyniad 4: Iach ac annibynnol**




**Canlyniad 5: Economi ffyniannus**





**Canlyniad 6: Amgylchedd cynaliadwy**




**Canlyniad 7: Treftadaeth, diwylliant a'r Gymraeg**




**Canlyniad 8: Cael gwybodaeth, cael eu cynnwys a chael llais**



## 6 Crynodeb Ariannol


Fel corff sy'n atebol i'r cyhoedd, rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sicrhau gwerth am arian ac yn ystod 2014/2015 roeddem yn codi'r bedwaredd ffi isaf ar gyfer Band D Treth y Cyngor yng Nghymru. Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru yn darparu Awdurdodau Lleol â Setliad grant refeniw sy'n ariannu cyfran helaeth o'r gyllideb refeniw. Roedd setliad 2014/2015 yn cynnig cryn her, ac roedd yn cynnwys toriad cyllid mewn termau real o ganlyniad uniongyrchol i'r sefyllfa economaidd, ond gyda mesurau wedi'u cynnwys i amddiffyn cyllidebau Ysgolion. Canlyniad hyn oedd bod ein rhagolwg gwario'n uwch na'r gyllideb a oedd ar gael ac felly roedd angen canfod arbedion o £8.453 miliwn er mwyn mantoli'r gyllideb. Canfuwyd yr arbedion â nifer o fentrau gan gynnwys ailstrwythuro'n Ariannu Cyfalaf, creu incwm ychwanegol a nifer o ymarferion yn ail-fodelu gwasanaethau gan gyflawni arbedion o ran staff.

Datgelodd yr Adolygiad o Wariant Gweinyddol diweddar ar draws Cymru a wnaed gan KPMG ar ran Llywodraeth Cymru, yn 2013/2014 bod gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y **costau gweinyddol isaf yng Nghymru ar 4.2%** o'n gwariant refeniw gros.

Mae'r tabl isod yn dangos sut y gwariwyd ein cyllideb yn 2014/2015 ac o ble y daeth yr arian (incwm).

**Sut caiff yr arian ei wario**

| 2013/2014 Gwir Gost Net £'000 | Gwasanaeth | 2014/2015 Rhagamcan Diwygiedig £'000 | 2014/2015 Gwir Gost Net £'000 |
|---|---|---|---|
| 91,856 | Addysg | 91,031 | 90,796 |
| 41,803 | Gwasanaethau Cymdeithasol | 43,021 | 43,143 |
| 24,882 | Diwylliannol, Amgylcheddol a Chynllunio | 25,083 | 25,074 |
| 5,916 | Priffyrdd, Ffyrdd a Chludiant | 5,618 | 5,592 |
| 2,279 | Tai | 2,576 | 2,576 |
| 8,276 | Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor | 9,250 | 9,092 |
| 10,309 | Ariannu Cyfalaf | 11,254 | 11,275 |
| 5,770 | Ardollau | 5,837 | 5,789 |
| 12,467 | Gwasanaethau Eraill | 12,190 | 12,523 |
| **203,558** | **CYFANSWM GWASANAETHAU** | **205,860** | **205,860** |




**O ble daw'r arian**

| 2013/2014 £'000 | Ffynhonnell | 2014/2015 £'000 |
|---|---|---|
| 121,703 | Grant Cynnal Refeniw - gan Lywodraeth Cymru | 120,751 |
| 36,466 | Cyfraniad o'r Gronfa Trethi Annomestig – gan LlC | 37,104 |
| 45,389 | Talwyd gan Drethdalwyr y Cyngor | 48,005 |
| **203,558** | **CYFANSWM CYLLID** | **205,860** |
| **(2,979)** | **BALANSAU (Dygwyd Ymlaen)** | **(4,466)** |
| **(4,466)** | **BALANSAU (Cariwyd Ymlaen)** | **(2,466)** |

**Crynodeb o Wariant Cyfalaf**

| 2013/2014 Gwariant £'000 | Gwasanaeth | 2014/2015 Gwariant £'000 |
|---|---|---|
| 13,291 | Addysg | 4,851 |
| 254 | Gwasanaethau Cymdeithasol | 1,952 |
| 17,425 | Diwylliannol, Amgylcheddol a Chynllunio | 14,544 |
| 4,059 | Priffyrdd, Ffyrdd a Chludiant | 4,078 |
| 1,307 | Tai'r Sector Preifat | 1,646 |
| 2,564 | Gwasanaethau Eraill | 1,282 |
| **38,900** | **CYFANSWM GWASANAETHAU** | **28,353** |

## 7 Dweud eich dweud

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymrwymo i wella ein gwasanaethau ac mae'n bwysig ein bod ni'n gwrando ar yr hyn sydd gennych chi, y gymuned, i'w ddweud. Mae croeso i chi awgrymu gwelliant neu wneud sylw i'r Cyngor ei ystyried unrhyw adeg o'r flwyddyn, felly rhowch wybod i ni.

Cysylltwch â ni:

- Os oes gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau am gynnwys yr Adroddiad Blynyddol;
- Os hoffech chi argymell amcanion gwella newydd y dylai'r Cyngor eu hystyried;
- Neu os hoffech chi gopi o Gynllun Corfforaethol 2012 – 2017, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol neu'r Adroddiad Blynyddol.

| | |
|---|---|
| E-bost | **tgdc@conwy.gov.uk** |
| Ysgrifennwch at | **Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol**<br>**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**<br>**Bodlondeb**<br>**Conwy**<br>**LL32 8DU** |
| Rhif Ffôn | 01492 574000 |
| Gwasanaeth Cyfnewid Testun BT | Gall cwsmeriaid sydd â nam ar y clyw neu ar y lleferydd gysylltu ag unrhyw wasanaeth y Cyngor trwy ddeialu **18001** cyn y rhif y maent yn angen. |

Caiff yr Adroddiad Blynyddol hwn, y Cynllun Corfforaethol, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru oll eu cyhoeddi ar ein gwefan yn Gymraeg ac yn Saesneg. www.conwy.gov.uk/cynlluncorfforaethol neu www.conwy.gov.uk/accountability.

Mae modd i chi hefyd weld yr Adroddiadau yn defnyddio un o'r cyfrifiaduron sydd at ddefnydd y cyhoedd, yn rhad ac am ddim, ym mhob Llyfrgell yn y Sir ac wrth y dderbynfa ym Modlondeb ac wrth y dderbynfa yn y Swyddfeydd Dinesig.

Gellir darparu copïau o'r Adroddiad Blynyddol mewn Braille neu mewn print bras, neu ar gryno ddisg clywedol. Ffoniwch 01492 574000 i drefnu cael copi.

Er mwyn bod yn gynaliadwy a lleihau costau argraffu, mae nifer gyfyngedig o gopïau papur o'r Adroddiad Blynyddol ar gael yn y lleoliadau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Llyfrgelloedd y Sir** | **Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn** |
| **Llyfrgell Deithiol** | **Adeiladau'r Llywodraeth, Dinerth Road, Bae Colwyn** |
| **Gwasanaeth i Bobl Sy'n Gaeth i'w Tai** | **Swyddfeydd Bron y Nant, Dinerth Road, Bae Colwyn** |
| **Bodlondeb, Conwy** | **Swyddfeydd y Cyngor, Mochdre** |

**Neuadd y Dref, Llandudno** **Glasdir, Llanrwst**
**Yr Heath, Llanfairfechan**

Gellir gwneud cais am gopi papur drwy ffonio 01492 574000.

## 8 Ymhle y gallwch gael rhagor o wybodaeth am eich Cyngor?

- Gwefan www.conwy.gov.uk
- Gwefannau Cymdeithasol - Gallwch ein dilyn ar Twitter ac ar Facebook
- **'Un Conwy' 2012 – 2025** Cynllun integredig Bwrdeistref Sirol Conwy www.conwy.gov.uk/unconwy
- Cynllun Corfforaethol 2012 - 2017 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Adroddiadau Perfformiad chwe-misol www.conwy.gov.uk/cynlluncorfforaethol
- Mae'r **Uned Data Llywodraeth Leol** yn casglu, cyflwyno ac yn cymharu data'r Fframwaith Mesur Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer pob Cyngor yng Nghymru. Mae adroddiad mesur perfformiad sy'n manylu ar y cynnydd a wnaed yng Nghonwy dros nifer o flynyddoedd i'w weld ar ein gwefan:

  www.lgdu-wales.gov.uk

  www.mylocalcouncil.info

  www.conwy.gov.uk/accountability

- Mae **Swyddfa Archwilio Cymru** yn arolygu perfformiad pob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae adroddiadau archwilio cenedlaethol a rhai am gynghorau penodol i'w gweld ar: www.wao.gov.uk
- Mae **Estyn** yn arolygu pob ysgol gynradd, pob ysgol uwchradd a phob Awdurdod Addysg Lleol ledled Cymru. Mae adroddiadau pob arolwg i'w gweld ar: www.estyn.co.uk
- Mae **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)** yn arolygu ansawdd sefydliadau gofal cymdeithasol ac ansawdd rhyw gymaint o'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar y Sir. Mae adroddiadau pob arolwg i'w gweld ar: www.cssiw.org.uk